

MORRIS-JONES (gynt JONES), Syr JOHN (MORRIS) (1864 - 1929), ysgolhaig, bardd, a beirniad llenyddol

Enw: John (Morris) Morris-jones

Dyddiad geni: 1864

Dyddiad marw: 1929

Priod: Mary Morris-Jones (née Hughes)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: ysgolhaig, bardd, a beirniad llenyddol

Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Thomas Parry

Ganwyd 17 Hydref 1864 yn Nhrefor, Llandrygarn (Môn), ond symudodd ei deulu yn 1868 i Lanfair-pwll, ac yno yr aeth i'r ysgol. Aeth yn 1876 i ysgol Friars, Bangor, dan [D. Lewis Lloyd](#), ac aeth [Lloyd](#) yn 1879 ag ef gydag ef i Ysgol Aberhonddu. Cafodd ysgoloriaeth i Goleg Iesu, Rhydychen, yn 1883, a graddiodd mewn mathemateg yn 1887. Yn fyfyrwr, bu'n darllen llawysgrifau a llyfrau Cymraeg yn y Bodleian ac yn dilyn darlithiau [John Rhys](#); yr oedd hefyd yn un o sylfaenwyr (6 Mai 1886) Cymdeithas Dafydd ab Gwilym. Yn Ionawr 1889 (wedi dal yn y cyfamser ysgoloriaeth i astudio Celteg) fe'i penodwyd yn ddarlithydd Cymraeg yng Ngholeg y Gogledd - rhoddwyd iddo gadair athro yn 1895. Priododd (1897) â Mary Hughes, Siglan, Llanfair; cawsant bedair merch. Urddwyd ef yn farchog yn 1918; cafodd LL.D. er anrhydedd gan Brifysgol Glasgow yn 1919, a D.Litt. gan Brifysgol Genedlaethol Iwerddon yn 1927. Bu farw 16 Ebrill 1929.

Dechreuodd gyhoeddi barddoniaeth yn *Cymru Fydd* ac yn *Cymru (O.M.E.)*; yn *Cymru* (Awst 1892) yr ymddangosodd ei awdl 'Cymru Fu: Cymru Fydd.' Yn 1907 cyhoeddodd y gyfrol *Caniadau*, yn cynnwys awdlau, cywyddau, telynegion, a chyfieithiadau - y cyfieithiadau mwyaf eu dylanwad oedd trosiadau o 38 o gerddi Heine, oherwydd y rhain, gyda thelynegion gwreiddiol Morris-Jones ei hun, a barodd sefydlu'r delyneg gelfyddydol fel prif fynegiant beirdd Cymru am flynyddoedd. Ond y gwychaf o'r cyfieithiadau, a'r mwyaf parhaol ei werth, yw penillion Omar Khayyám. Yr oedd glendïd iaith a cheinder ymadrodd yr holl gyfrol yn amheuthun iawn yn ei dydd, ac yn enghraifft i feirdd Cymraeg o'r hyn y mynnai'r awdur iddynt hwythau ymgynraedd ato. Iaith a chyflod barddoniaeth oedd ei brif ddiddordeb, a dyna fyrddwn ei feirniadaethau cyson yn yr eisteddfodau cenedlaethol o 1896 hyd ei farw. Agwedd ar hynny oedd ei astudiaeth drylwyr o reolau'r farddoniaeth gaeth draddodiadol. Mewn erthygl yn *Zeitschrift für Celtische Philologie*, 1901, dangosodd am y tro cyntaf erioed sut i ddsbarthu'r cynganeddion yn gyfundrefnol gywir, yn ôl eu haceniad a'u cydbwysedd. Ffrwyth terfynol ei waith ar y mesurau caeth yn eu holl agweddau oedd *Cerdd Dafod*, 1925, ac y mae ail ran y llyfr yn gwbl ddiogel ac awdurdodol. Rhan o'r un diddordeb oedd yr erthyglau ar [Dudur Aled](#) (*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1908-9) ac [Edmwnd Prys](#) (*Gen.*, 1923), a diau mai hyn hefyd a'i harweiniodd i amau dilysrwydd haniadau ' Gorsedd y Beirdd ' - yn *Cymru (O.M.E.)*, 1896, cyhoeddodd bum erthygl ar yr 'Orsedd,' gan gasglu yn ôl y goleuni a oedd ganddo ef ar y pryd mai dyfais beirdd Morgannwg yn y 17eg ganrif oedd hi a'i defodau; ceir hanes darganfod y gwir yn y rhagymadrodd ganddo ef i lyfr [G. J. Williams](#), *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad*, 1926.

Cychwynnodd yn gynnar ar ei ymgyrch i sefydlogi orgraff yr iaith. Bu trafod ar y pwnc yng Nghymdeithas Dafydd ab Gwilym, dan [Rhys](#), yn 1888. Yn 1893, dan nawdd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, cyhoeddwyd *Welsh Orthography*, adroddiad pwyllgor arbennig a Morris-Jones yn ysgrifennydd iddo - ef a sgrifennodd yr adroddiad. Wedyn, yn gadeirydd Pwyllgor Llên Bwrdd Gwybodau Celtaidd y Brifysgol, sgrifennodd ddrafft *Orgraff yr Iaith Gymraeg*, 1928.

Y peth cyntaf a gyhoeddodd fel gwaith ysgolheigaidd oedd argraffiad (gyda [Rhys](#)) o'r llawysgrif 'Llyvyr Agkyr Llanddewivrefi' (1346); cyhoeddwyd hwn yn 1894. Yn 1896 ymddangosodd adargraffiad, llinell am linell, o *Gweledigaethu y Bardd Cwsc*, gyda rhagymadrodd ar fywyd yr awdur a chefnidir llenyddol y llyfr. Bu'n gweithio am flynyddoedd ar ramadeg a chystrawen y Gymraeg cyn cyhoeddi, 1913, ei brif waith ysgolheigaidd, *A Welsh Grammar, Historical and Comparative*.^[r] Gellir dadlau fod rhai damcaniaethau yn adran ieithegol y llyfr yn rhy fentrus, ac y mae ymchwil ieithegol ddiweddarach, o anghenraid, wedi disodli llawer o'i gynigion; ond y mae corff y llyfr, sef y gramadeg disgrifiadol pur, yn aros yn gadarn yn ei holl hanfodion, ac yn dystiolaeth i graffter eithriadol Morris-Jones i ddarganfod rheol ramadegol, a'i ddawn i'w mynegi. Cyhoeddwyd drafft anghyflawn o'i waith ar gystrawen yr iaith, dan y teitl *Welsh Syntax*, yn 1931. Ei waith ysgolheigaidd mawr arall oedd *Taliesin* (= *Cymm.*, xxviii), sef, yn y lle cyntaf, adolygiad ar arg. [J. Gwenogvryn Evans](#) o 'Lyfr Taliesin,' ond gyda hynny drafodaeth werthfawr, yn cynnwys cyfieithiadau a nodiadau, ar rai o'r cerddi hanesyddol i Urien a'i fab Owain. Sgrifennodd lawer o erthyglau i gylchgronau, rhai ohonynt mewn dadleuon ar yr orgraff a phynciau perthnasol, a bu'n olygydd *Y Beirniad* chwarterol o 1911 hyd 1919.

Awdur

Syr Thomas Parry, (1904 - 1985)

Ffynonellau

'[The Cymmrodiorion Medal: Sir John Morris-Jones, M.A., LL.D., Professor of Welsh at the University College of North Wales, Bangor](#)', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1919-20

J. Lloyd Jones, '[The Late Sir John Morris-Jones, M.A., LL.D., D.Litt., An appreciation](#)', *Y Cymmrodor*, 1929

Ifor Williams, 'Jones, Sir John Morris- (1864-1929)', *Oxford Dictionary of National Biography*, 1922-30

Darllen Pellach

Allan James, *John Morris-Jones* (Gwasg Prifysgol Cymru 2011)

Huw Walters, *John Morris-Jones, 1864-1929: Llyfryddiaeth Anodiadol* (Aberystwyth 1987)

Erthygl Wikipedia: [John Morris-Jones](#)

Delweddau

John Wickens, [John Morris Jones](#)

Christopher Williams, [Sir John Morris Jones \(1864-1929\)](#)

Gweithiau

Goronwy Owen, J. Morris-Jones, *Gwaith Goronwy Owen* (Liverpool 1896)

Goronwy Owen, John Morris-Jones (gol.), [Llythyrau Goronwy Owen \(Liverpool 1895\)](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Letters from John Morris-Jones to Sir John Rh. s](#)

VIAF: [37704920](#)

Wikidata: [Q6249473](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>^[r]

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

